

A photograph of an industrial facility, likely a steel mill, at night. The scene is dominated by a large, complex structure of metal beams and pipes, illuminated by several bright yellow lights. The sky is a deep blue, suggesting dusk or dawn. The overall atmosphere is industrial and somewhat somber.

Briff Ymchwil Y diwydiant dur: golwg fanwl

Awdur: **Gareth Thomas**
Dyddiad: **Mai 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Gareth Thomas**

Dyddiad: **Mai 2016**

Rhif Papur: **16-022**

Clawr blaen: **Llun o Wikimedia. Dan drwydded Creative Commons**

Agraffwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.

Hyrwyddwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.

Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA**

 : 0300 200 6328

 : GarethDavid.Thomas@Cynulliad.Cymru

 : Cynulliad.Cymru/Pigion

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Y diwydiant dur: golwg fanwl

Yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant dur yw un o'r materion sydd wedi cael y sylw mwyaf yn 2016. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r diwydiant yng Nghymru a'r DU, datblygiadau diweddar o ran safleoedd Tata Steel a'r wynebau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant.



Cynnwys


| | | |
|-----------|---|-----------|
| 1. | Cyflwyniad i'r diwydiant dur yng Nghymru a'r DU | 1 |
| 2. | Newidiadau yn y diwydiant dur dros y blynyddoedd diwethaf | 3 |
| 3. | Dod o hyd i brynwr ar gyfer safleoedd Tata a chefnogaeth lywodraethol.... | 6 |
| | Dod o hyd i brynwr ar gyfer safleoedd Tata..... | 6 |
| | Meysydd lle y gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynnig cefnogaeth..... | 7 |
| 4. | Yr heriau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant dur | 9 |
| | Prisiau ynni a rheoleiddio amgylcheddol | 9 |
| | Gweithredu yn erbyn 'dympio' a statws economi marchnad ar gyfer Tsieina | 10 |
| | Ardrethi busnes..... | 13 |
| | Caffael..... | 14 |
| | Barn y Pedwerydd Cynulliad ar gamau y mae angen eu cymryd i gefnogi'r diwydiant dur | 15 |
| | Atodiad – Rhestr termau cynhyrchu dur allweddol..... | 16 |

1. Cyflwyniad i'r diwydiant dur yng Nghymru a'r DU

Y penderfyniad gan Tata Steel ym mis Mawrth 2016 i roi ei asedau yn y DU ar werth oedd y datblygiad diweddaraf mewn 'storom berffaith' o ran yr heriau diweddar i'r diwydiant dur yng Nghymru ac yn y DU. Fodd bynnag, nid yw heriau diweddar y diwydiant dur wedi'u cyfyngu i Gymru neu'r DU yn unig. Mae'r ffaith bod twf economaidd Tsieina wedi arafu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wedi cyfrannu at ddirywiad yn y galw am ddr yno, sydd wedi arwain at ddr dros ben ar y farchnad ryngwladol. Mae hyn wedi gostwng prisiau yn sylweddol.

Yn ogystal â gwaith dur Port Talbot, mae gan Tata nifer o weithrediadau eraill yng Nghymru, yn Llanwern, yr Orb yng Nghasnewydd, Shotton a Throstre ger Llanelli. Mae cynhyrchwyr eraill â gweithrediadau yng Nghymru yn cynnwys Celsa a Liberty House Steel UK. Fodd bynnag, mae'n bwysig edrych ar gynhyrchu dur yng Nghymru yn ei gyd-destun ehangach. Nid yw pob math o gynnyrch dur yn cael ei wneud yng Nghymru. Mae rhai cynnyrch y gellid ei ddefnyddio mewn prosiectau seilwaith yng Nghymru yn cael ei wneud mewn mannau eraill yn y DU.

Ffigur 1: Cwmnïau dur yng Nghymru



Caiff amrywiaeth eang o gynhyrchion dur eu gwneud yng Nghymru (ceir rhestr o dermau cynhyrchu dur yn yr atodiad i'r papur hwn), gan gynnwys:

Tata Steel

- Mae safle cynhyrchu dur integredig **Port Talbot** yn cynhyrchu coiliau slab, wedi'u rholio'n boeth, wedi'u rholio'n oer a galfanedig;
- Mae safle **Llanwern** yn cynhyrchu coiliau stribed a galfanedig wedi'u rholio'n boeth ac wedi'u rholio'n oer;
- Mae gwaith yr Orb yng Nghasnewydd **yn cynhyrchu dur trydanol**;
- Mae safle Trostre yn gwneud tunplat a mathau eraill o ddur pecynnu; ac
- Mae safle Shotton yn gwneud dur metelaidd galfanedig a dur cyn-orffenedig.

Mae gan Tata is-gwmni hefyd yng **Nghaerffili**, sef Catnic Plc, sy'n gwneud amrywiaeth o gynhyrchion dur a PVC ar gyfer y diwydiant adeiladu.

Celsa Steel

- Mae'r ddau safle yng **Nghaerdydd** yn gwneud bar atgyfnerthu (rebar), coiliau cynnyrch uchel, gwialenni gwifren, bariau gwastad, sianeli ac onglau.

Liberty Steel

- Mae'r safle yng **Nghasnewydd** cynhyrchu coiliau wedi'u rholio'n boeth, gyda'r posibilrwydd y bydd yn symud tuag at gynhyrchu cynhyrchion hir fel rebar, gyda strategaeth tymor hwy o osod ffwrnais arc; ac
- Mae **adroddiadau yn y cyfryngau yn awgrymu** y disgwylir ail-ddechrau cynhyrchu ar hen safle Caparo yn **Nhredegar** yn fuan, ar ôl ei rhewi wedi iddo gael ei werthu i Liberty. Bydd yn gwneud ac yn cyflenwi cydrannau tiwb dur a rhannau i'r diwydiant ceir.

Wrexham Wire

- Mae hen safle Caparo yn **Wrecsam** yn gwneud amrywiaeth o gynhyrchion gwifren fel gwifrau sbring ar gyfer matresi a gwifrau peirianeg.

Capital Coated Steel

- Mae Capital Coated Steel ar hen safle Tata ym Mhont-y-cymer wedi derbyn **cymorth o £1.2 miliwn gan Lywodraeth Cymru**. Mae'n prosesu dur rhag-orffenedig a ddefnyddir mewn cynhyrchion electronig a gorchuddion.

2. Newidiadau yn y diwydiant dur dros y blynyddoedd diwethaf

Mae effaith economaidd Tata ar gymunedau dur a Chymru yn sylweddol. Canfu astudiaeth gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd mai **£3.2 biliwn y flwyddyn yw cyfanswm effaith economaidd Tata** yng Nghymru, a'i fod yn cefnogi gwerth ychwanegol gros o £1.6 biliwn. Mae Tata yn cyfrannu £200 miliwn mewn cyflogau i economi Cymru bob blwyddyn, ac mae pob swydd yn Tata yn cefnogi 1.22 o swyddi ychwanegol yn economi Cymru.

Gan edrych yn fwy cyffredinol ar y diwydiant dur, yn 2015 cafodd bron hanner yr holl ddur a wnaed yn y DU ei gynhyrchu yng Nghymru, ac roedd dros 40 y cant o'r rheini oedd yn gweithio yn niwydiant haearn a dur y DU yn gweithio yng Nghymru. Er bod y ffigurau hyn yn rhagddyddio'r diswyddiadau y cyhoeddodd Tata ym mis Ionawr 2016, maent yn dangos pwysigrwydd cymharol y diwydiant dur i Gymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Fodd bynnag, mae cynhyrchu dur yn y DU tua hanner yr hyn ydoedd 40 mlynedd yn ôl ac mae cyflogaeth yn y diwydiant ar ei isaf yn y 40 mlynedd diwethaf. Er bod cyflogaeth yng Nghymru hefyd ar ei isaf yn y cyfnod hwn, mae lefelau cynhyrchu yn gymharol debyg, sy'n dangos y gwelliannau yng nghynhyrchiant y diwydiant dros y cyfnod hwn. Roedd y diwydiannau haearn a dur yn **cyflogi 6,420 o bobl** ledled Cymru yn 2015, ac roedd **y prif ddiwydiant dur a'i gadwyn gyflenwi** yn cyfrif am bron 20,000 o swyddi.

Mae UK Steel, cymdeithas fasnach y diwydiant, wedi datgan y disgwylir mai ffigurau cynhyrchu dur yn y DU yn 2016 fydd yr isaf erioed, ac amcangyfrifir gostyngiad mewn cynhyrchu dur o fwy nag 20 y cant rhwng 2015 a 2016. **Dros y pedwar degawd diwethaf** mae lefelau cynhyrchu dur yn y DU wedi disgyn yn is na'r lefelau mewn gwledydd fel Ffrainc, Sbaen a'r Eidal, ac wedi aros yn is na lefel yr Almaen. Fodd bynnag, **mae UK Steel** yn nodi mai'r prif ffactorau allanol a achosodd y pwysau diweddar i'r diwydiant yw:

Dirywiad o ran defnyddio capasiti a thwf sylweddol mewn allforion o Tsieina. Mae'r ddau ffactor wedi rhoi pwysau sylweddol ar brisiau deunydd crai a phrisiau cynnyrch dur gorffenedig, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr dur yn gwneud colledion gweithredu.

Gan edrych yn fwy eang ar ddiwydiannau sylfaenol (gweithgynhyrchwyr deunyddiau craidd fel dur sy'n cyflenwi cwmnïau gweithgynhyrchu ac adeiladu eraill), **mae'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus ac Ymchwil (IPPR)** wedi canfod bod gan y DU un o'r sectorau lleiaf o'i gymharu â gwledydd eraill. Mae hyn yn gyfystyr ag 1.3 y cant o gynnyrch domestig gros y DU, ac ers 2000 mae'r gyfran o gynnyrch domestig gros wedi gostwng 43 y cant o'i gymharu â 21 y cant mewn gwledydd eraill yr OECD.


Roedd gwerth mewforion haearn a dur yn fwy i'r DU na gwerth allforion yn 2015. Allforiodd y DU haearn a dur gwerth £4.7 biliwn o'i gymharu â mewforion o £5.1 biliwn. Dyma'r ddau ffigur isaf ers 2009.

Fodd bynnag, mae gwerth yr haearn a dur sy'n cael eu hallforio o Gymru yn sylweddol uwch na gwerth mewforion. Yn 2015, allforiodd Cymru haearn a dur gwerth £1 biliwn o'i gymharu â mewforion o ychydig o dan £400 miliwn. Wedi dweud hynny, gwerth allforion haearn a dur o Gymru yn 2015 oedd yr isaf ers 2004. Hefyd, roedd gwerth blynyddol allforion ym 1996 bron naw gwaith yn

fwy na gwerth mewnfurion. Yn 2015, roedd gwerth blynyddol allforion ychydig yn llai na thair gwaith gwerth mewnfurion.


Mae'r graffiau isod yn dangos tueddiadau o ran cynhyrchu dur, cyflogaeth a mewnfurion ac allforion haearn a dur yng Nghymru a'r DU.

Ffigur 2: Cynhyrchu dur crai yng Nghymru a'r DU, 1975-2015




Ffynhonnell: Stats Cymru, [Lefelau cynhyrchu haearn a dur yn ôl blwyddyn, mesur ac ardal](#)

Ffigur 3: Cyflogaeth yn y diwydiant haearn a dur yng Nghymru a'r DU, 1975-2015



Ffynhonnell: Stats Cymru, [Lefelau cynhyrchu haearn a dur yn ôl blwyddyn, mesur ac ardal](#)

Ffigur 4: Gwerth allforion a mewnforion haearn a dur yng Nghymru a'r DU, 1996-2015 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM, Cronfa ddata Ystadegau Masnach Rhanbarthol

3. Dod o hyd i brynwr ar gyfer safleoedd Tata a chefnogaeth lywodraethol

Dod o hyd i brynwr ar gyfer safleoedd Tata

Mae Tata wedi datgan ei fwriad i werthu ei asedau yn y DU mewn 'ffordd amserol'. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi dweud bod yn rhaid i Tata ganiatáu amser digonol a realistig i brynwyr sydd â diddordeb ystyried y cynnig, ac y dylid rhoi misoedd iddynt yn hytrach nag wythnosau. **Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Busnes, Arloesi a Sgiliau** ym mis Ebrill 2016, dywedodd Tata nad oes union amserlen ar gyfer cwblhau'r gwerthiant, ond ei fod yn awyddus i wneud hyn cyn gynted â phosibl a bod yn werthwr cyfrifol. Fodd bynnag, ni all roi sicrwydd y bydd yn cadw'r safleoedd ar agor nes y bydd hyn yn digwydd. **Hefyd, cafwyd adroddiadau yn y cyfryngau** nad yw Tata wedi llwyr ymwrthod â'r syniad o gadw ei fusnesau yn y DU os bydd rhagolygon y diwydiant yn gwella.

Gan edrych ar werthiannau diweddar eraill yn y diwydiant dur yn y DU, cymerodd naw mis i ddod i **gytundeb gwerthiant amodol** ar gyfer safle Tata yn Scunthorpe ym mis Ebrill 2016. **Safbwynt diweddaraf Llywodraeth y DU** yw y bydd yn edrych trwy fanylion y cytundeb, ai bod yn barod i ddarparu cyllid masnachol os bydd ei angen.

Ym mis Mawrth 2016, **prynodd Llywodraeth yr Alban ddau safle dur Tata** cyn eu gwerthu nhw i Liberty Steel ar yr un diwrnod, sef 'bargen cefn wrth gefn' fel y caiff ei hadnabod. Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau, gwnaed hyn heb unrhyw gost i'r cyhoedd gan fod y pris prynu a'r pris gwerthu yr un fath. Ceir ar ddeall y cafodd y cytundeb ei strwythuro i osgoi'r broses diwydrwydd dyladwy hirfaith sy'n ofynnol er mwyn gwerthu rhwng dau gwmni.

Mae yna nifer o senarios posibl ar gyfer dyfodol gweithrediadau Tata Steel yn y DU, gan gynnwys:

- **Gwerthu'r holl weithrediadau**, naill ai yn gyfan neu mewn rhannau. Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau, byddai angen £2 biliwn neu fwy i ailstrwythuro Tata Steel UK i wneud y safleoedd yn broffidiol.
- **Rheolwyr yn prynu'r holl weithrediadau neu safleoedd penodol**, gyda chefnogaeth bosibl gan fenthyciadau neu warantau benthyciadau llywodraethol.
- **Gwladoli, naill ai dros dro neu yn y tymor hwy**. Ni fydd buddsoddiad cyhoeddus sy'n cynnal gweithgareddau economaidd yn cael ei ystyried yn Gymorth Gwladwriaethol o dan Erthygl 107 (1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, ar yr amod bod y buddsoddiad yn cael ei wneud ar delerau a fyddai'n dderbyniol i fuddsoddwr preifat sy'n gweithredu o dan amodau arferol y farchnad (yr enw ar hyn yw egwyddor buddsoddwr y farchnad economi). Os byddai llywodraeth yn prynu gwaith dur, byddai angen profi hyn ar sail egwyddor buddsoddwr y farchnad economi. Byddai hyn yn anodd pe na bai unrhyw fuddsoddwr preifat yn ystyried prynu'r busnes oherwydd amodau annormal y farchnad annormal a cholledion i'w gweld yn cael eu gwneud. Efallai bod materion pellach ynglŷn â phrisio endid o'r fath a'i rwymedigaethau.
- **Cyd-fuddsoddiad gan lywodraethau gyda phrynwr sector preifat ar delerau masnachol**, gan gynnwys y posibilrwydd o gymryd cyfrifoldeb am rai o'r dyledion sy'n gysylltiedig â'r safleoedd, neu gymryd cyfran ecwiti fel yr awgrymwyd gan Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU.
- **Rhewi safleoedd**, gyda chefnogaeth ariannol lywodraethol er mwyn cadw staff a chaniatáu ailagor safleoedd yn y dyfodol.

– **Cau**, gan ddwyn effaith economaidd a chymdeithasol anferthol ar y gweithlu ac ar economi Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'n hysbys bod Liberty Steel ac Excalibur Steel UK wedi cyflwyno cais ffurfiol i brynu Tata Steel UK yn ei gyfanrwydd, a bod saith ymgeisydd wedi symud ymlaen i gam nesaf y broses werthu, lle byddant yn cael rhagor o wybodaeth am y busnes. Mae adroddiadau yn y cyfryngau yn awgrymu bod yr ymgeiswyr eraill yn cynnwys Nucor o UDA, JSW Steel o India, Hebei Iron and Steel Group o Tsieina, y cwmni ecwiti preifat Endless o'r DU, a Greybull Capital, cwmni buddsoddi yn Llundain. **Mae adroddiadau hefyd** bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cais Excalibur Steel UK yn ariannol; fodd bynnag, nid yw wedi gosod gwerth ar y gefnogaeth hon ac nid yw hyn yn cefnogi'r cais yn ffurfiol gan fod cymorth ar gael i gynigwyr eraill os byddant yn gofyn am hynny.

Meysydd lle y gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynnig cefnogaeth Cymorth a gynigiwyd neu a ddarparwyd eisoes

Cynigiodd Llywodraeth flaenorol Cymru becyn o dros £60 miliwn i Tata cyn y cyhoeddiad am werthu ei asedau yn y DU. Roedd hyn yn cynnwys cyllid o £30 miliwn ar gyfer gwelliannau amgylcheddol a £2 miliwn ar gyfer sgiliau a hyfforddiant, a benthyciad masnachol o £30 miliwn i ddatblygu llinell galfaneiddio ar gyfer cotio dur. **Dywedodd y Prif Weinidog hefyd** y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu i brynwr newydd, ac y byddai'r cynnig presennol yn parhau ar gyfer prynwr newydd.

O ystyried faint o fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer safleoedd Tata, bydd hefyd angen cymorth gan Lywodraeth y DU. **Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y byddai'n ystyried cyd-fuddsoddi gyda phrynwr ar delerau masnachol. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys cannoedd o filiynau o bunnoedd mewn benthyciadau masnachol.** Gallai'r pecyn cymorth hwn fod ar sawl ffurf yn dibynnu ar anghenion penodol unrhyw brynwr, ac mae'r dewisiadau posibl i'w gweld isod:

- Disgwylir y caiff yr holl gefnogaeth, neu'r mwyafrif helaeth, ei rhoi drwy **ariannu dyledion**;
- darparu dyled drosiadwy (benthyciad y gellir ei droi'n rhanddaliadau) neu **ariannu drwy ddulliau amgen**; neu
- **gefnogi prynwr i ariannu drwy gymryd cyfran ecwiti leiafrifol o hyd at 25 y cant** i gefnogi'r prynwr. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth y DU yn cymryd unrhyw reolaeth faterol dros y busnes.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Ardal Fenter Glannau Port Talbot mewn ymateb i'r colledion swyddi a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Mae'r ardal yn cwmpasu Parc Ynni Baglan, Ystâd Ddiwydiannol Baglan a Harbwr a Dociau Port Talbot, **gan gynnwys safle'r gwaith dur.** Nod yr ardal fenter yw creu swyddi a chefnogi twf economaidd. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys Llywodraeth y DU fod **Lwfansau Cyfalaf Uwch** wedi cael eu cynnig, yn amodol ar gytundeb ar ffiniau'r ardal fenter. Mae'r rhain wedi'u hanelu'n benodol at Ardaloedd Menter sy'n cefnogi gweithgynhyrchu, **ac maent yn galluogi busnesau i hawlio lwfans blwyddyn gyntaf o 100 y cant ar gyfer costau cyfalaf buddsoddiad mewn peiriannau ac offer a wneir cyn 31 Mawrth 2020.** **Bydd hyn yn cynyddu i wyth mlynedd ar ôl cyhoeddi'r ardal fenter wedi i Fil Cyllid 2016 Llywodraeth y DU gael cydsyniad brenhinol.** Bwriad y lwfansau yw gwneud yr ardal yn fwy cystadleuol a rhoi cymhelliant ar gyfer buddsoddiad newydd mewn safleoedd ac offer.

Meysydd eraill o gymorth posibl

Yn ogystal â'r pecyn cymorth, efallai y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd yn fodlon ystyried cymorth ychwanegol drwy gyllid grant, er enghraifft i gefnogi datblygiad seilwaith

gorsaf ynni, effeithlonrwydd ynni a/neu fesurau diogelu'r amgylchedd, ymchwil a datblygu a hyfforddiant.

Mae datblygu gorsaf ynni newydd ar safle Port Talbot yn rhywbeth sydd hefyd wedi cael ei drafod fel buddsoddiad posibl a allai elwa o gymorth llywodraethol. **Ym mis Ebrill 2016, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd** fod angen adnewyddu neu ailosod yr orsaf ynni, a fyddai'n costio rhwng £60 miliwn a £110 miliwn.

O ran ymchwil a datblygu, mae'r **IPPR wedi dadlau y dylai diwydiannau sylfaenol fel dur gael eu hintegreiddio'n well yn y rhwydweithiau Catapult**, sydd wedi'u cynllunio i hybu arloesedd mewn 10 sector allweddol ar draws y DU. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd canolfan Catapult ar gyfer **cymwysiaidau lled-ddargludyddion cyfansawdd** yn cael ei sefydlu yng Nghaerdydd.

Mae enghreifftiau o brosiectau ymchwil a datblygu sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys **Partneriaeth Ymchwil ac Arloesi Diwydiant Dur (STRIP)**, sydd â'r nod o **hybu sgiliau'r diwydiant dur yng Nghymru a'i gadwyn gyflenwi, a'r prosiect** Canolfan Beirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol (SPECIFIC).

Ym mis Rhagfyr 2015, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd fod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i gyfleoedd i wella a moderneiddio'r sector dur drwy ddefnyddio'r Ganolfan Gynghori ynghylch Buddsoddiadau Ewropeaidd a Chronfa Ewrop ar gyfer Buddsoddiadau Strategol.

Trafodwyd y gallai **Cynllun Pensiwn Dur Prydain** fod yn rhwystr rhag dod o hyd i brynwr oherwydd y buddsoddiad y byddai ei angen i gael gwared ar y diffyg yn y cynllun. Mae Tata ac Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU wedi nodi bod hwn yn fater allweddol i'w oresgyn, er nad yw Llywodraeth y DU yn credu ar hyn o bryd y bydd yn rhaid i'r Gronfa Diogelu Pensiynau ymyrryd. Cronfa achub yw hon sy'n cymryd cyfrifoldeb dros gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig cwmnïau sydd wedi mynd i'r wal, gan reoli buddsoddiad y gronfa pensiwn a'r taliadau i aelodau. Er bod y Gronfa Diogelu Pensiynau fel arfer yn ymyrryd pan fydd cwmni wedi mynd i'r wal, gall hefyd gymryd cyfrifoldeb dros gronfa pensiwn cwmni sydd mewn trafferth, fel Tata, ond nid yw hyn yn digwydd yn rheolaidd.

Mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Tata Steel ac Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Dur Prydain i ddod o hyd i ateb a fydd yn helpu i leihau ei effaith ar brynwr posibl, ac efallai ei wahanu oddi wrth y busnes. Mae gan y cynllun 130,000 o aelodau, a byddai ariannu hyn yn ymrwymiad mawr i brynwr posibl.

Ceir adroddiadau bod Llywodraeth y DU wedi cynnig newidiadau i Gynllun Pensiwn Dur Prydain, gan gynnwys newidiadau i'r gyfradd y mae gwerth pensiynau'n cynyddu a diogelu'r gronfa pensiwn fel na fyddai Tata nac unrhyw ddarpar brynwr yn gyfrifol amdani.

4. Yr heriau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant dur

Ym mis Hydref 2015, nododd y diwydiant dur bum maes lle y gellid cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu yn y tymor hwy. Fodd bynnag, er bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r diwydiant dur yn eu hystyried yn bryderon cyfredol allweddol, **gyda UK Steel yn datgan, o blith y pum cam, bod un wedi cael ei weithredu'n llawn, bod tri wedi'u gweithredu'n rhannol a bod un heb ei weithredu o gwbl. O'i gymharu, mae Llywodraeth y DU o'r farn ei bod wedi mynd i'r afael â phedwar o'r camau hyn.** Mae manylion pellach am y 'gofynion allweddol' hyn wedi'u nodi isod. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn San Steffan ym mis Ebrill 2016, dywedodd Tata fod prisiau ynni a threthi busnes yn faterion penodol i'r DU sydd wedi cyfrannu at y penderfyniad i roi ei asedau yn y DU ar werth.

Prisiau ynni a rheoleiddio amgylcheddol

Prisiau ynni

Mae prisiau ynni i gynhyrchwyr dur y DU yn uwch nag yng ngwledydd eraill yr UE, a'r gwahaniaeth mewn prisiau trydan yw'r prif reswm dros hyn. Ceir dwy brif ffordd o gynhyrchu dur, ac mae'r ddau ohonynt yn defnyddio swm sylweddol o drydan. Mae safleoedd fel Tata ym Mhort Talbot yn gwneud dur o fwyn haearn gan ddefnyddio ffwrnais chwyth ar safle integredig, ac yn defnyddio symiau mawr o lo, trydan a rhywfaint o nwy naturiol. **Mae undeb llafur UNITE wedi amlygu** bod gwaith dur Port Talbot yn defnyddio cymaint o drydan ag Abertawe i gyd, ac mae ei fil ynni blynyddol 50% yn uwch nag unrhyw ffatri arall yn Ewrop. Y ffordd arall, a ddefnyddir ar safleoedd Celsa yng Nghaerdydd, yw ailgylchu dur sgrap mewn ffwrnais arc trydan sy'n gofyn am gryn dipyn o drydan a rhywfaint o nwy naturiol.

Mae'r diwydiant dur wedi bod yn galw ers 2011 am becyn arbennig ar gyfer diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni i liniaru yn erbyn prisiau ynni uchel. Ym mis Rhagfyr 2015, sicrhodd Llywodraeth y DU gymeradwyaeth, o safbwynt cymorth gwladwriaethol, i dalu rhagor o iawndal i ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, gan gynnwys dur, er mwyn ystyried costau'r polisi ynni adnewyddadwy. Mae Tata wedi derbyn ei daliad cyntaf o dan y pecyn hwn. Fodd bynnag, mae **Liberty Steel** wedi mynegi pryder ynghylch rheolau'r cynllun, gan ddweud bod posibilrwydd na allai ei weithrediadau presennol yng Nghymru elwa arno. Drwy'r ddau gynllun, **mae Llywodraeth y DU wedi darparu bron £200 miliwn mewn iawndal i ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni** i liniaru yn erbyn effaith polisi newid yn yr hinsawdd, a thalwyd dros £50 miliwn o hyn fel iawndal i Tata.

Er ei fod yn croesawu'r pecyn iawndal ar gyfer diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, mae'r diwydiant dur wedi datgan nad yw hyn yn mynd i'r afael â'r materion ynghylch sicrhau sefyllfa deg i gynhyrchwyr dur yn y DU o'i gymharu â chynhyrchwyr eraill yn yr UE. Ceir cryn wahaniaeth o hyd rhwng **y prisiau trydan y mae cynhyrchwyr dur y DU yn eu talu yn y DU a gwledydd eraill yr UE fel Ffrainc a'r Almaen. Dywedodd Anna Soubry AS, Gweinidog Busnesau Bach a Menter Llywodraeth y DU,** fod hyn yn rhannol oherwydd y dosbarthiad o brisiau ynni rhwng busnesau a chartrefi, gan ddatgan:

Yn yr Almaen, mae'r baich ar y defnyddiwr. Mae aelwydydd yn yr Almaen fel arfer yn talu £10 ychwanegol y flwyddyn, rwy'n meddwl, yn hytrach na rhoi'r baich ar ddiwydiant yr Almaen.

Mae'r Almaen wedi cael ei henwi fel enghraifft o arfer da yn aelod-wladwriaethau eraill yr UE sydd wedi trefnu iawndal ar gyfer diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni sydd wedi bod o fudd i'r diwydiant dur.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan y bu'n mynegi pryderon am effaith prisiau ynni ar y busnesau sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni ers 2011.

Rheoleiddio amgylcheddol

Roedd y Gyfarwydddeb Gweithredu ar Allyriadau Diwydiannol yn un arall o bump o 'ofynion allweddol' gan y diwydiant dur, ac roedd yn bygwth rhoi pwysau pellach ar gostau. Ym mis Hydref 2015, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** y byddai'n gohirio'r broses o weithredu'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol am bedair blynedd a hanner ar gyfer y sector dur, yn amodol ar gael cymeradwyaeth derfynol gan y Comisiwn.

Fodd bynnag, mae UK Steel wedi mynegi pryder ynghylch y newidiadau sydd ar y gweill i Gynllun Masnachu Allyriadau yr UE (EUETS), ac wedi galw am fesurau diogelu ar gyfer sectorau fel y diwydiant dur lle gallai eu cystadleurwydd byd-eang fod fwyaf mewn perygl. Yn ôl **gwaith a wnaed ar gyfer Eurofer** (sy'n cynrychioli cynhyrchwyr dur ar draws yr UE), €34 biliwn yw'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol a ragwelir ar gyfer diwydiant dur yr UE yn sgil y cynnig ar gyfer **Cam 4 o'r EUETS** yn y cyfnod ar ôl 2020.

Gweithredu yn erbyn 'dympio' a statws economi marchnad ar gyfer Tsieina

Gweithredu yn erbyn arferion masnachu annheg fel 'dympio'

Mae rhai materion allweddol a nodwyd gan y diwydiant dur yn gofyn am weithredu ar lefel yr UE, gan gynnwys camau yn erbyn arferion masnachu, fel 'dympio' dur – lle mae'r pris allforio yn is na phris marchnad gartref yr allforiwr, neu efallai hyd yn oed yn is na phris cost. Hanfod hyn yw pryderon ynghylch cystadleurwydd dur Ewropeaidd ledled y byd o'i gymharu ag allforion o Tsieina a Rwsia, a Belarws yn fwy diweddar.

Sut mae tariffau atal dympio yn gweithio?

O ran tariffau atal dympio, **gall yr UE ddewis gorfodi un neu fwy o dair ffurf sylfaenol:**

- **Tariff ad valorem** – canran o'r pris net, am ddim wrth ffin yr UE. Dyma'r math mwyaf cyffredin o dariff;
- **Tariff penodol** – gwerth penodedig ar gyfer swm penodol o nwyddau, e.e. £100 fesul tonnell o gynnyrch; a
- **Thariff amrywiol** – isafswm pris mewnforio (MIP). Nid yw mewnforywr yn yr UE yn talu tariff atal dympio os yw pris allforio yr allforiwr tramor i'r UE yn uwch na'r MIP.

Mae'r tariffau mewnforio a osodir fel mesurau atal dympio yn seiliedig ar faint y mae'r gwerth arferol yn uwch na'r pris allforio, oni bai y byddai cyfradd is yn atal y niwed i gynhyrchwyr dur yr UE. Yr enw ar hyn yw'r rheol 'dyletswydd lai'.

Ar hyn o bryd mae gan yr UE 37 o fesurau amddiffyn masnach ar fewnforio cynhyrchion dur penodol, gyda naw o ymchwiliadau yn mynd rhagddynt. Cafwyd dwy enghraifft ddiweddar o achosion atal dympio sy'n arbennig o berthnasol i gynhyrchwyr yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2016, **cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd** ei fod yn gosod tariffau atal dympio dros dro o rhwng 13.8 y cant a 26.2 y cant ar ddu'r gwastad wedi'i rollo'n oer o Tsieina a Rwsia, sy'n arbennig o

berthnasol i Tata ym Mhort Talbot. **Dywedd Tata fod yr ymchwiliad wedi bod yn araf a bod y tariffau yn isel. Hefyd, cymharodd** dariffau'r UE â'r tariffau o 266% y mae Unol Daleithiau America wedi'u gosod ar ddr gwastad wedi'i rollo'n oer o Tsieina. **Mae adroddiadau yn y cyfryngau** fod UDA wedi gosod tariff gwrth-gymhorthdal o 256% yn erbyn dur fflat wedi'i rollo'n oer o Tsieina, sy'n golygu bod cyfanswm y trethi mewnfario wedi codi 522%.

Hefyd, mynegodd **Llywodraeth y DU a'r diwydiant dur** bryder ynghylch lefel isel y tariffau atal dympio dros dro ar rebar, **a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd** yn 9.2 y cant i 13 y cant ym mis Ionawr 2016, sy'n arbennig o berthnasol i Celsa fel prif weithgynhyrchedd rebar y DU.

Yn ddiweddar, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ceisio moderneiddio'i drefniadau atal dympio, a gwnaeth ddatganiad ym mis Mawrth 2016 yn awgrymu mesurau polisi i gefnogi'r sector dur Ewropeaidd. Mae hyn yn adeiladu ar y cynigion **a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2013**. Mae rhai o'r cynigion allweddol yn cynnwys:

- **Cwblhau ymchwiliadau atal dympio yn gynt** – cyflymu'r broses gyffredinol gan fis o leiaf;
- **Cael gwared ar y rheol 'dyletswydd lai' mewn rhai amgylchiadau** – er mwyn caniatáu gosod tariffau atal dympio uwch; a
- **Chyflwyno system 'gwyliadwriaeth flaenorol' ar gynhyrchion dur** – mae'r rhain yn seiliedig ar gynllun trwyddedu mewnfario awtomatig a gellir eu chyflwyno pan fydd mewnfario yn bygwth achosi niwed i gynhyrchwyr yr UE.

Mae'r diwydiant dur wedi galw am ddiddymu'r rheol 'dyletswydd lai', ond mae hyn yn destun dadlau gwleidyddol.

Mae **UK Steel** wedi galw ar Lywodraeth Cymru i roi pwysau ar y **DU a'r UE i godi'r rheol 'dyletswydd lai' mewn perthynas â'r diwydiant dur**. Byddai codi'r rheol hon yn cael gwared ar y cap ar lefelau atal dympio ac atal cymhorthdal, ac yn sicrhau bod arferion yr UE yn cyd-fynd ag economïau eraill, yn enwedig UDA.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 11 Chwefror 2016, amlinellodd **Anna Soubry AS, Gweinidog Busnesau Bach, Diwydiant a Menter Llywodraeth y DU safbwynt cyffredinol Llywodraeth y DU ar y rheol 'dyletswydd lai'**:

Mae'r DU wedi bod yn gefnogol ers amser hir i foderneiddio offerynnau amddiffyn masnach yr UE – y rheolau ar gyfer diogelu'r UE rhag dympio a mewnfario â chymhorthdal ac arferion masnachu annheg eraill – i'w gwneud yn fwy effeithlon, effeithiol a thryloyw. Ond mae hefyd yn rhaid i foderneiddio gydbwysu buddiannau defnyddwyr a buddiannau cynhyrchwyr. Nid oedd rhai o'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn yn 2012, gan gynnwys y cynnig i ddiddymu'r rheol dyletswydd lai, yn sicrhau cydbwysedd o'r fath.

Mae Sajid Javid AS, Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU (yr Ysgrifennydd Gwladol), **hefyd wedi datgan ei farn bod y rheol 'dyletswydd lai' yn gyffredinol o fudd i ddefnyddwyr Prydeinig**, ac y byddai cael gwared arni'n llwyr yn cael effaith ariannol sylweddol.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Busnes, Arloesedd a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol, **gan edrych yn benodol ar ddr, fod y Cyngor Dur wedi gofyn i randdeiliaid y diwydiant gyflwyno atebion posibl.**

Dyweddod Prif Weinidog Cymru y dylai Llywodraeth y DU wneud popeth yn ei gallu i gymryd camau yn erbyn 'dympio' er mwyn creu sefyllfa deg yn y diwydiant, gan gynnwys cefnogi tariffau uwch.

Statws economi marchnad ar gyfer Tsieina

Yn gysylltiedig â'r pryderon ynghylch 'dympio' y mae'r ddadl ynghylch a ddylid rhoi statws economi marchnad i Tsieina. Mae Tsieina o'r farn bod Protocol Derbyn Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn cynnwys rhwymedigaeth gyfreithiol i roi statws economi marchnad iddi erbyn mis Rhagfyr 2016. Mae'r dehongliad hwn yn ddadleuol iawn, ac mae'r Undeb Ewropeaidd a rhai aelodau eraill o WTO yn parhau i fod yn ansicr ynghylch pa ddehongliad i'w ddilyn. Os na fydd yr UE a Tsieina yn dod i gytundeb ar y mater hwn, mae gan WTO **weithdrefn datrys anghydfod** y gellir ei rhoi ar waith.

Ar hyn o bryd, nid yw Tsieina yn cael ei thrin fel economi marchnad mewn achosion atal dympio os na all cwmnïau o Tsieina brofi eu bod yn gweithredu o dan amodau economi marchnad. **Yn yr UE**, wrth wneud cais am statws economi marchnad ar gyfer economi gyfan, rhaid bodloni pum maen prawf:

- ychydig o ddylanwad llywodraethol o ran dyrannu adnoddau ac ym mhenderfyniadau gan fentrau;
- dim camliwio o ran gweithredu'r economi breifat;
- gweithredu'r gyfraith cwmnïau yn effeithiol drwy reolau llywodraethu corfforaethol digonol;
- fframwaith cyfreithiol effeithiol ar gyfer cynnal busnes a gweithrediad priodol i'r economi marchnad rydd; a
- bodolaeth sector ariannol gwirioneddol.

Mae Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop wedi tynnu sylw at **y pwynt allweddol ynghylch statws economi marchnad a'r diwydiant dur**. Yn hytrach na defnyddio prisiau domestig i gyfrifo'r trothwy dympio, wrth edrych ar ddympio posibl gan economïau nad ydynt yn rhai economi marchnad, gall y Comisiwn Ewropeaidd ddefnyddio methodolegau eraill i bennu gwerth arferol nwydd. O ganlyniad, mae Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop yn dod i'r casgliad bod prawf bod defnyddio **methodolegau nad ydynt yn ymwneud ag economi marchnad i gyfrifo gwerth arferol nwydd fel dur yn arwain at dollau atal dympio uwch**.

Nid yw'r diwydiant dur yn credu y dylai'r UE roi statws economi marchnad i Tsieina, gan nad yw'n ystyried bod Tsieina yn economi marchnad. Er enghraifft, holodd Celsa sut y gellid rhoi statws economi marchnad i wlad sy'n amlwg heb economi marchnad. **Nododd undeb llafur Community y byddai** rhoi statws economi marchnad i Tsieina yn drychinebus i'r diwydiant ac yn debygol o fod yn hoelen olaf yn arch y diwydiant dur yn y DU.

Cafwyd rhai awgrymiadau fod Llywodraeth y DU yn gefnogol o roi statws economi marchnad i Tsieina. Fodd bynnag, **dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol** mai penderfyniad ar y cyd i'r UE fyddai hyn, a bod yn rhaid i wlad haeddu statws economi marchnad. **Mae Gweinidog Busnesau Bach, Diwydiant a Menter Llywodraeth y DU** o'r farn bod y ddadl yn 'sgwarnog', gan ddweud bod gan Rwsia statws economi marchnad, ond bod modd iddi orfod talu tariffau atal dympio o hyd.

Mae hefyd yn werth nodi y rhoddwyd statws economi marchnad i Rwsia cyn ymuno â WTO, a bod yr UE wedi gosod amodau ar hyn, sy'n golygu bod modd gosod tariffau uwch nag ar gyfer economïau marchnad eraill o dan amgylchiadau penodol. Wrth ystyried y potensial o 'ddympio' gan Rwsia, caiff bodolaeth amodau economi marchnad ei gwerthuso fesul achos. Yn gyffredinol, nid oes modd ymdrin ag economi nad yw'n economi marchnad, ond mae modd gwneud addasiadau os oes tystiolaeth o gamliwio prisiau. Efallai y byddai rhai sectorau yn cael eu heithrio o'r rheol gyffredinol

ynghylch ymdrin ag economi marchnad. Fodd bynnag, mae'n werth bod yn ymwybodol bod **Rwsia wedi gwneud cwyn i'r WTO ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan yr UE i gyfrifo tariffau atal dympio ar gyfer nifer o gynhyrchion, gan gynnwys dur. Mae'r UW a'r Rwsia yn trafod y gwyn hon ar hyn o bryd.**

Mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi statws economi marchnad i Tsieina yn cael ei wneud ar y cyd gan aelod-wladwriaethau'r UE. Fodd bynnag, ar 12 Mai, pasiodd Senedd Ewrop benderfyniad anneddfwriaethol nad yw'n gyfreithiol rwymol bod yn rhaid trin mewnfurion Tsieina i'r UE mewn ffordd ansafonol nes bod Tsieina yn bodloni pum maen prawf yr UE ar gyfer statws economi marchnad. Hefyd galwodd ar y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno cynnig sy'n taro cydbwysedd rhwng diogelu diwydiant a swyddi'r UE, a bodloni ei rwymedigaethau o dan brotocol derbyn WTO. Pasiwyd y cynnig o 546 o bleidleisiau i 28, gyda 77 yn ymatal.

Ardrethi busnes

Mae polisi ardrethi busnes wedi'i ddatganoli'n llawn i Gymru, a bu galwadau gan gynhyrchwyr dur ac undebau llafur i eithrio offer a pheiriannau rhag ardrethi busnes. O ran y diwydiant dur, gallai cymorth yn y maes hwn olygu na fyddai busnesau'n gorfod talu ardrethi busnes ar isadeiledd fel ffwrneisi chwyth, ffyrnau golosg, tyrbinau a generaduron. Mae rhai o'r farn bod y trefniant presennol yn annog cwmnïau i beidio â buddsoddi, ac mae **UK Steel wedi tynnu sylw at y ffaith** bod cwmnïau yn y DU yn talu rhwng pump a 10 gwaith yn fwy mewn ardrethi busnes na'u cystadleuwyr yn yr UE.

Caiff y sector dur ei gyfrif yn ddiwydiant cyfyngedig o dan reolau cymorth gwladwriaethol.

Felly, ni all elwa ar gael pob math o gymorth y wladwriaeth, gan gynnwys cymorth achub ac ailstrwythuro ar gyfer cwmnïau mewn trafferthion, neu gymorth rhanbarthol ar gyfer prosiectau cyfalaf mewn ardaloedd a gynorthwyr. **Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd,** gan gofio'r ystyriaethau cymorth gwladwriaethol sydd ynghlwm wrth gefnogi diwydiant penodol, **fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried eithrio offer a pheiriannau wrth gyfrifo ardrethi busnes ar draws pob sector yn hytrach nag ar gyfer cynhyrchwyr dur yn unig.**

Fodd bynnag, mewn **llythyr at Bwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad ar 4 Ebrill 2016,** dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, yn dilyn trafodaeth gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, **nad yw wedi bod yn bosibl eto i nodi ffordd o wneud hyn a fyddai'n osgoi rheolau cymorth gwladwriaethol ac apeliadau, o ystyried y diffyg data sydd ar gael a'r cymhlethdodau technegol.** Wrth ymateb i sefyllfa Tata yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ebrill 2016, **dywedodd y Prif Weinidog:**

Rydym ni hefyd wedi edrych ar ffyrdd o dynnu rhai dosbarthiadau o offer a pheiriannau—rydym ni'n gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar hyn—o bob asesiad ardrethi. Nid oes unrhyw ffordd gyflym na rhwydd o wneud hyn a fyddai'n osgoi cymorth gwladwriaethol ac apeliadau gan eraill yn y sector, oherwydd—. Yn hanesyddol, nid oes llawer iawn o ddata ar gael. Ond rydym ni'n amcangyfrif, o ran Tata, bod tua £4.5 miliwn i £6 miliwn o'i fil ardrethi bob blwyddyn yn cynnwys offer a pheiriannau.

O ran ystyriaethau eraill ynghylch ardrethi busnes, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n asesu gwerth ardrethol eiddo busnes yng Nghymru, yn ystyried cyflwr y diwydiant dur wrth ailbrisio eiddo i bennu ei fil ardrethi busnes o 2017 ymlaen.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi eithrio offer a pheiriannau rhag ardrethi busnes yn Lloegr. Ym mis Ebrill 2016, dywedodd Gweinidog Busnesau Bach, Diwydiant a Menter Llywodraeth y DU fod hyn oherwydd y byddai wedi costio £2 biliwn bob blwyddyn ariannol i roi budd o £40 miliwn i'r diwydiant dur.

Rhoddodd Llywodraeth yr Alban ryddhad rhag ardrethi busnes i'r ddau safle Tata a werthwyd yn ddiweddar yn yr Alban o dan y cynllun 'de-minimis', sy'n caniatáu rhyddhad o €200,000 (tua £150,000) dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y rhyddhad yn digwydd mewn un flwyddyn, a chafodd ei gynnig i helpu i ddenu prynwr. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd **ym mis Chwefror 2016 na fyddai'r lefel hon o gymorth yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r diwydiant dur yng Nghymru. Hefyd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ebrill 2016 **nad oedd gan Tata diddordeb** yn y model hwn o ryddhad ar gyfer Port Talbot gan fod Port Talbot yn llawer mwy na'r ddau safle yn yr Alban.**

Caffael

Byddai'r diwydiant dur yn hoffi pe bai sector cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn defnyddio dulliau caffael ar gyfer prosiectau seilwaith mawr i gefnogi dur yn y DU yn well. Mae gan Lywodraeth Cymru **ddatganiad polisi caffael ar gyfer Cymru**, sy'n nodi'r arferion caffael a'r camau gweithredu penodol y mae'n ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd. Mae'n ystyried bod ei pholisiâu caffael yn cefnogi egwyddorion y **Siarter ar gyfer Dur Cynaliadwy Prydeinig**. **Mae'r ystadegau diweddaraf ar gaffael** yn dangos bod 55 y cant o wariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd ar gwmnïau o Gymru.

Ym mis Mawrth 2016, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd fod **Llywodraeth Cymru** yn adolygu dogfennau contractau enghreifftiol ar gyfer prosiectau trafndiaeth mawr i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion y Siarter ar gyfer Dur Cynaliadwy Prydeinig. **Mae ffrwd gwaith caffael y Tasglu Tata** hefyd yn edrych ar ddatblygu rhestr o brosiectau seilwaith allweddol a allai fod o gymorth i'r diwydiant dur, fel Morlyn Llanw Abertawe. Mae'r Tasglu hefyd yn edrych ar sut y mae'r prosiectau cyfalaf mawr yn y **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru** yn gosod meini prawf ar gyfer y dur sydd ei angen.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno nifer o fesurau caffael. Mae'r canllawiau a gyflwynwyd ym mis Hydref 2015 yn datgan bod yn rhaid i bob adran llywodraeth ganolog ystyried effaith gymdeithasol ac economaidd y dur y maent yn ei brynu ar gyfer pob prosiect mawr. Yn fwy diweddar, o fis Ebrill 2016, mae'n ofynnol i'r sector cyhoeddus fabwysiadu'r diwygiadau hyn ar gyfer pob contract perthnasol. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu'r sector cyhoeddus sydd heb ei ddatganoli. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd ym mis Tachwedd 2015 fod y canllawiau hyn yn adlewyrchu arfer presennol Llywodraeth Cymru. Mewn achosion o gaffael cyhoeddus sy'n cynnwys cyflenwi dur, bydd angen ystyried caffael cyfrifol, hyfforddiant, yr ôl-troed carbon, iechyd a diogelwch staff ac integreiddio cymdeithasol ar gyfer gweithwyr dan anfantais. Bydd gofyn i gontractwyr sy'n gweithio ar gyfer y sector cyhoeddus hysbysebu eu gofynion ar gyfer dur fel y gall cwmnïau yn y DU gystadlu. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi y bydd yn pennu rhestr o gyflenwyr dur cymeradwy sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod.

Mae enghreifftiau o brosiectau seilwaith diweddar sydd wedi defnyddio canran uchel o ddur o'r DU yn cynnwys prosiectau Network Rail, HS2, Crossrail a chlodwyr awyrennau y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae llawer o'r dur hwn wedi dod o safleoedd Tata.

Gan edrych ar enghreifftiau penodol o sut y gellid addasu polisi caffael yng Nghymru, mae **undeb llafur y GMB** wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ddiwygio eu polisi caffael i sicrhau bod safleoedd gwastraff-i-ynni yn cael eu hadeiladu o dan y cytundeb cenedlaethol rhwng cyflogwyr ac undebau llafur. Effaith hyn yw y byddai'n fwy tebygol y byddai contractau'n cael eu dyfarnu i gwmnïau yn y DU gan ddefnyddio llafur lleol ac yn helpu i ddefnyddio mwy o ddur domestig mewn prosiectau o'r fath.

Er bod modd datblygu polisiâu, un o bryderon allweddol y diwydiant dur at y dyfodol yw eu bod yn cael eu gweithredu a'u monitro mewn gwirionedd. O ran y lefel o gaffael o'r DU a fyddai'n ddymunol, **dywedodd Steve McCool o undeb llafur Community:**

Nid oes angen i ni gael 100 y cant o'r farchnad i'n cwmnïau dur yn y DU; dim ond cael dros 50 y cant, gan wthio tuag 60 y cant, er mwyn cael busnes llewyrchus. Felly, byddai'n helpu'r diwydiant yn fawr pe bai modd i ryw gymalau mewn polisiâu caffael ddatgan eu bod yn defnyddio 60 y cant, 65 y cant, neu pa ffigur bynnag a fyddai'n dderbyniol.

Barn y Pedwerydd Cynulliad ar gamau y mae angen eu cymryd i gefnogi'r diwydiant dur

Ym mis Ebrill 2016, ysgrifennodd Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad at Brif Weinidog y DU, Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Y camau allweddol yr oedd yn dymuno eu gweld oedd:

- Datblygu **strategaeth ddiwydiannol a gweithgynhyrchu ragweithiol ar gyfer y DU;**
- Creu systemau monitro a rheoli effeithiol i **ddwyn cyrff y sector cyhoeddus i gyfrif am eu gweithgaredd caffael;**
- Eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch hynt unrhyw gynigion i **eithrio offer a pheiriannau rhag ardrethi busnes;**
- Llywodraeth y DU i **arwain y ffordd yn Ewrop o ran cryfhau mesurau atal dympio;**
- Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthsefyll y galw i'r UE roi statws economi marchnad i Tsieina;
- **Ehangu cwmpas ac aelodaeth Tasglu Tata Llywodraeth Cymru** i ystyried hyfywedd hirdymor y diwydiant a chynnwys cynrychiolaeth gan Weinidogion Llywodraeth y DU ym mhob cyfarfod;
- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru nodi pa ymdrechion y maent yn eu gwneud i **leihau cost ynni i weithgynhyrchwyr dur** ac amlinellu pa gymorth a fydd ar gael ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol diwydiant dur y DU; a
- **Dylai Tata fod yn werthwr cyfrifol**, a rhannu adroddiad McKinsey gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn caniatáu digon o amser paratoi i gefnogi darpar brynwyr.

Atodiad – Rhestr termau cynhyrchu dur allweddol

Mae gwefan UK Steel **yn rhoi trosolwg o'r broses gwneud dur**, sy'n rhoi enghreifftiau gweledol o sut y caiff dur ei wneud, ynghyd â chanllaw cam-wrth-gam mwy manwl. Mae rhai o'r termau allweddol wedi'u nodi isod.

Gwaith Dur Ocsigen Sylfaenol (BOS) - dyma un o'r ddwy broses a ddefnyddir i wneud dur yn y DU heddiw, er enghraifft yng ngwaith dur Port Talbot. Caiff dur sgrap a haearn tawdd eu harllwys i'r llestr ocsigen sylfaenol, yna caiff picell llawn dŵr ei gostwng i mewn i'r llestr, ac mae ocsigen pur iawn yn cael ei chwythu drwyddi ar wasgedd uchel. Mae'r ocsigen, drwy broses a elwir yn ocsideiddio, yn cyfuno â'r carbon ac elfennau diangen eraill, gan eu gwahanu oddi wrth y metel a gadael dur.

Ar ôl cymryd sampl i sicrhau bod y cynnwys cemegol y dur yn gywir, caiff y llestr ei ogwyddo eto i ganiatáu i'r dur tawdd lifo allan. Tapio yw'r enw ar hyn. Caiff y dur ei dapio i mewn i letwad, lle mae gwaith dur eilaidd yn aml yn digwydd. Yn olaf, caiff y llestr ei droi ben i waered a chaiff y slag ei arllwys i gynhwysydd.

Llestr ocsigen sylfaenol - uned fawr mewn siâp gellygen a ddefnyddir i drosi haearn a dur sgrap yn ddir tawdd. Mae'r llestr BOS modern yn gwneud hyd at 350 tonnall o ddir ar y tro, ac mae'r broses gyfan yn cymryd tua 40 munud.

Ffwrnais chwyth - mae ffwrnais chwyth fel y rhai ym Mhort Talbot yn creu haearn tawdd er mwyn caniatáu i'r broses gwneud dur ocsigen sylfaenol ddechrau. Mae **UK Steel** wedi cyhoeddi canllaw manwl ar sut y mae ffwrnais chwyth yn gweithio. Mae UK Steel yn nodi bod y mwyn haearn a'r glo a ddefnyddir yn y DU yn cael ei fewnforio (yn bennaf o'r Unol Daleithiau, Canada, Brasil, Awstralia a Sgandinafia), oherwydd bod adnoddau'r DU o lo golosg a mwyn o ansawdd da yn gyfyngedig ac yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Cotio - Bydd y rhan fwyaf o ddir yn rhydu'n raddol unwaith iddo ddod i gysylltiad ag awyr, ac felly mae angen ei amddiffyn. Mae modd gwneud i ddir wrthsefyll cyrydu yn well drwy ei gotio yn y ffatri cyn ei anfon. Mae ystod eang o wahanol gotiau ar gael, gan gynnwys cotio sinc, cotiadau organig a thunplat.

Ffwrn golosg - Mae ffwrn golosg yn strwythur tebyg i ffwrnais chwyth, a ddefnyddir i gynhyrchu golosg. Fel rhan o'r broses o wneud haearn, caiff glo cyfunol ei gynhesu'n gyntaf mewn ffyrnau golosg i gynhyrchu golosg. Carboneiddio yw'r enw ar y broses hon. Wedi i'r golosg gael ei garboneiddio, caiff ei wthio allan o'r ffyrnau a'i adael i oeri. Yna caiff ei gludo, ynghyd â mwyn haearn a sinter, i'r ffwrnais chwyth.

Dur wedi'i rollo'n oer - Ar ôl rholio poeth, mae llawer o gynhyrchion dur yn mynd drwy brosesu pellach ar ôl iddynt gael eu hoeri. Nid yw'r cam prosesu hwn o reidrydd yn newid siâp y cynnyrch dur, ond mae'n ei deneuo ac yn gwella ei nodweddion perfformiad yn sylweddol.

Ffwrnais arc trydan - Yn y DU, caiff ffwrneisi arc trydan fel yr un a ddefnyddir gan Celsa yng Nghaerdydd eu defnyddio i gynhyrchu dur. Yn wahanol i'r llwybr ocsigen sylfaenol, nid yw'r ffwrnais arc yn defnyddio metel poeth. Mae'n defnyddio sgrap dur oer, sy'n cael ei arllwys i mewn i'r ffwrnais o graen uwchben. Yna caiff caead ei osod dros y ffwrnais. Mae'r caead yn cynnwys electrodau sy'n cael eu gostwng i mewn i'r ffwrnais. Caiff cerrynt trydan ei basio drwy'r electrodau i ffurfio arc. Mae'r gwres a gynhyrchir gan yr arc hon yn toddi'r sgrap. Mae'r trydan sydd ei angen ar gyfer y broses hon yn ddigon i bweru tref â phoblogaeth o 100,000. Mae'r ffwrnais arc trydan fodern fel arfer yn gwneud 150 tonnall bob tro, sy'n cymryd tua 90 munud.

Cynhyrchion gwastad – Cynhyrchion dur yw'r rhain fel plât a choiliau wedi'u rholio'n boeth sy'n cael eu rholio gan slabiau. Ar ôl y broses gwneud dur a chastio, caiff cynhyrchion eu gwresogi'n gyntaf mewn ffwrnais ail-wresogi nes eu bod yn chwilboeth. Yn achos pob math o felinau, mae cynhyrchion lled-orffenedig yn mynd yn gyntaf i stand caboli. Yna gellir eu rhoi drwy stand gorffen i wneud plât neu gyfres o standiau caboli i wneud coiliau.

Dur wedi'i rholio'n boeth – Ar ôl y broses gwneud dur a chastio, caiff cynhyrchion eu gwresogi'n gyntaf mewn ffwrnais ail-wresogi nes eu bod yn chwilboeth. Mae cynhyrchion lled-orffenedig yn mynd yn gyntaf i stand caboli er mwyn rhoi'r siâp sydd ei angen i'r dur. Y stand caboli yw'r rhan gyntaf o'r felin rollo. Mae'r cynnyrch yn aml yn cael ei basio yn ôl ac ymlaen drwyddo sawl gwaith. Bob tro y bydd hyn yn digwydd, caiff siâp a dimensiwn y dur ei newid yn raddol i fod yn gynnyrch gorffenedig. Yna gellir ei basio drwy felin blât i wneud plât, melin strip i wneud coiliau neu felin cynnyrch hir i wneud bariau hir o ddu.

Cynhyrchion hir – cynhyrchion dur yw'r rhain sy'n cael eu rholio gan ddefnyddio clampiau neu filedau. Y rheswm am y term cynhyrchion hir yw eu bod yn dod allan o'r felin fel bariau hir o ddu. Fodd bynnag, maent yn cael eu cynhyrchu mewn pob math o wahanol siapiau a meintiau. Gall bariau gael trawstoriadau ar ffurf sgwariau, petrylau, cylchoedd, hecagonau neu onglau. Gellir defnyddio'r bariau hyn ar gyfer adeiladu, ond defnyddir llawer o fathau o far hefyd at ddibenion peirianeg. Caiff gwialenni eu torchi ar ôl eu defnyddio a'u tynnu'n wifren neu greu cynhyrchion a ddefnyddir i atgyfnerthu adeiladau concriid, yn yr un modd â rhai mathau o far.

Melinau cynnyrch hir - Ar ôl gadael y stand caboli, yn achos melin cynnyrch hir, mae'r darn o ddu yn mynd drwy gyfres o standiau sy'n lleihau ac yn newid siâp y dur.

Plât - Mae plât yn ddarn mawr a gwastad o ddu â thrwch o 10mm neu 20mm (er y gall fod â thrwch o hyd at 50mm) a hyd at 5 metr o led. Caiff ei ddefnyddio, er enghraifft, i wneud cyrff a deciau llongau neu i wneud tanciau a bwyleri mawr. Hefyd, mae modd ei rollo a'i weldio i ffurfio tiwb dur mawr, a ddefnyddir ar gyfer piblinellau olew a nwy.

Melinau plât - Caiff slabiau eu defnyddio i wneud plât. Fel arfer, maent yn cael eu pasio drwy stand gorffen ar ôl gadael stand caboli'r felin plât. Melin gwrthsymudiad yw hon lle caiff y dur ei basio yn ôl ac ymlaen drwy'r felin. Mae hefyd yn cael ei droi 90 gradd a'i rollo wysg ei ochr yn ystod y broses.

Bar atgyfnerthu (rebar) - Rebar yw bar dur neu rwyll o wifrau dur a ddefnyddir i gryfhau a chadw'r concriid mewn tensiwn mewn strwythurau concriid cyfnerthedig. Mae'r arwyneb yn aml wedi'i batrymu i fondio'n well â'r concriid. Celsa yw'r prif gynhyrchydd rebar yn y DU.

Gwaith dur eilaidd – Ar ôl i ddu gael ei dywallt o'r ffwrnais, efallai y bydd yn mynd drwy'r cam prosesu pellach o wneud dur eilaidd cyn i'r dur gael ei gastio. Yr amcan yw gwella cyfansoddiad cemegol y dur a chael gwared ar amhureddau.

Safle sinter - Mae safleoedd Sinter yn cydgasglu llwch mwyn haearn â deunyddiau mân eraill ar dymheredd uchel i greu cynnyrch y gellir ei ddefnyddio mewn ffwrnais chwyth. Mae sinter, sef y cynnyrch terfynol, yn nodwl bach, afreolaidd o haearn wedi'i gymysgu â symiau bach o fwynau eraill. Mae'r broses, a elwir yn sintro, yn achosi i'r deunyddiau cyfansoddol asio i wneud un màs mandyllog heb fawr o newid i nodweddion cemegol y cynhwysion. Diben sinter yw trosi haearn i ddu.

Slabiau - Darn o fetel â thrawstoriad petryal yw slab. Mae'n cael ei greu'n uniongyrchol drwy gastio parhaus neu'n anuniongyrchol drwy rollo ingot ar felin slabio. Fel arfer, caiff slabiau eu prosesu ymhellach trwy rollo gwastad, sgelpio, a rholio pibell. Gellir eu defnyddio i wneud plât a strip dur (coiliau wedi'u rholio'n boeth).

Melinau strip - Ar ôl gadael y stand caboli, caiff y slab ei basio'n barhaus drwy gyfres o standiau gorffen mewn melin strip sy'n gwasgu'r dur yn gynyddol i'w deneuo. Wrth i'r dur deneuo, mae'n dod yn hirach ac yn dechrau symud yn gyflymach. Oherwydd y bydd yr un darn o ddur â thrwch gwahanol ar ei hyd wrth i bob rhan ohono basio drwy stand gwahanol, mae gwahanol rannau o'r un darn o ddur yn symud ar gyflymder gwahanol. Mae hyn yn golygu bod angen rheoli cyflymder pob stand unigol yn agos iawn, ac mae'r broses gyfan yn cael ei rheoli gan gyfrifiadur. Erbyn iddo gyrraedd diwedd y felin, mae'r dur yn symud tua 40 milltir yr awr. Yn olaf, caiff y strip hir o ddur yn ei dorchi a'i adael i oeri.